

# 9. Drama'r Geni ar Fydyr ac Odl

## GOLYGFA 1

Llefarydd: 'Mae'n rhaid talu treth,' medd y rhaglaw,  
'Gorfodaeth yw hyn ar bob un;  
Ewch, felly, i dalu eich trethi -  
Pob person, i'w ddinas ei hun.'

[*Joseff a Mair yn dod i mewn trwy ddrws yn y cefn, ac yn cerdded ymlaen yn araf*]

Roedd Joseff yn ŵr o dŷ Dafydd,  
Ac felly, pan glywodd y gair,  
Ar daith i Fethlehem Jwda  
Cychwynnodd yntau a Mair.

'Rôl cyrraedd, bu Joseff yn holi'n  
Y ddinas am lety i ddau,  
Ond gwrthod a wnaeth pob gwesteiwr;  
Do, cafodd y drysau eu cau.

[*Joseff yn troi i wynebu'r gynulleidfa*]

Joseff: Rhaid i ni gael rhywle i orffwys,  
Fe ddaliaf i holi 'mhob tŷ.

[*Mair hefyd yn troi i wynebu'r gynulleidfa*]

Mair: Ond Joseff, fe lanwyd pob gwesty,  
Nid oes lle yn unman i ni.  
Beth allwn ni wneud? Rwy'n flinedig,  
Bu'r siwrnai i Fethlehem mor faith.

Joseff: O! Edrych, mae golau fan yma,  
Fe guraf i eto un waith.

[*Gwraig y llety'n agor y drws*]

Joseff: A oes gennych le yn eich gwesty?  
Teithwyr blinedig yn ni.

Gwraig y llety: Mae'n ddrwg gennyf, rhaid i mi wrthod,  
Mae pob stafell yn llawn yn y tŷ;  
Rwy'n ofni mai'r unig beth allaf  
Ei gynnig yw stabl yr ych;  
Nid yw mor gyfforddus â'r gwesty,  
Ond mae e'n lle cynnes a sych.

Joseff: Fe gymrwn ni'r stabl am heno  
A diolch.

Mair: Ie, diolch yn fawr.

Gwraig y llety: Wel, dyna eich llety, gyfeillion:  
Mae digon o wair ar y llawr.

Joseff: Gobennydd o wair a gawn heno,  
A brefiad yr ych yn ein clyw,  
Ond gwyddom y byddwn yn ddiogel:  
Gofalu amdanom mae Duw.

[*Gwraig y llety'n gadael a'r angylion yn dod i'w lle*]

Llefarydd: Y noson honno ganwyd  
Y baban Iesu i'r byd.  
O holl ryfeddodau Duw,  
Hwn yw y mwyaf un,  
Yr Iesu'n dod yn faban tlawd,  
Yn frawd i deulu dyn.

[*Mair a Joseff yn sefyll wrth y crud*]

## **GOLYGFA 2**

Llefarydd: Bugeiliaid a wyliai eu praid yr un nos,  
Draw, yn y maes, yn nhawelwch y rhos;  
Yn sydyn, disgleiriodd goleuni o'r nef  
Ac ofni a wnaethon pan glywsant y llef:  
Cyhoeddi'r newydd a wnaeth angel Duw,  
Rhoi'r gair oddi uchod i ddynol-ryw.

Yr Angel  
Gabriel: Nac ofnwch fugeiliaid, nac ofnwch yn awr,  
Mae gennyf newyddion o lawenydd mawr:  
Fe anwyd heddiw ym Methlem dref,  
Geidwad i chi, yr Iesu yw ef.

Yr angylion: Gogoniant yn y goruchaf i Dduw  
Ac ar y ddaear tangnefedd,  
I ddynion, ewyllys da.

Bugail 1: Fe welais angylion, fe'u clywais yn tystio  
Bod Ceidwad ym Methlem! A fûm i'n breuddwydio?

Bugail 2: O! Na, nid breuddwydio; fe'u gwelais, fel ti,  
A chlywais am Geidwad a aned i ni.

Bugail 3: Dywedodd y proffwydi  
Fod Meseia i ddod;  
Ai sôn am y Meseia  
Wnâi'r angel?

Bugail 1 a 2: Siŵr o fod.

Bugail 1: Meddyliwch am angylion  
Yn dod at fugeiliaid fel hyn!

Bugail 2: Ie, dod aton ni'r rhai di-nod  
I sôn am y baban gwyn!

Bugail 3: I Dduw, mae pawb yn cyfri,  
Un felly fu Duw erioed;  
Ond pam rŷn ni'n sefyll i siarad?  
Awn at y Meseia'n ddi-oed.

Bugail 1: Ie, pam rŷn ni'n sefyll fan yma, gyfeillion?  
Rhaid gadael y defaid a mynd ar ein hunion.

[*Bugeiliaid yn gadael. Mair a Joseff yn dod i'r llwyfan. Bugeiliaid yn dod yn ôl at Mair a Joseff*]

Bugeiliaid: O plygwn lin i'r sanctaidd un  
A ddaeth i'n byd i fyw;  
Fel 'rengyl glân, rhown ninnau gân  
I Geidwad dynol-ryw.

Am eni'r Meseia ym Methlehem dref,  
Ein diolch i'r nef a ddyrchafwn;  
Gorfoledd a moliant fydd mwy yn ein llef  
A'i enw ef beunydd gyhoeddwn.

### **GOLYGFA 3**

[*Herod a'i was yn dod i'r llwyfan*]

Herod: Fi yw Herod, rwy'n byw'n y plas,  
Rwy'n cosbi dynion gyda blas;  
Os ceisia rhywun ddwyn fy nghoron,  
Fe'i lleddir gan fy nhywysogion;  
Rhaid i chi gadw 'neddfau i,  
Neu marw fydd eich tynged chi.

Llefarydd: Bu'r doethion yn chwilio am frenin,  
A galw wrth fynd yn y plas;  
Wel, onid yng nghartref y brenin  
Y ceid baban o uchel dras?

[*Curo wrth ddrws Herod. Y gwas yn ateb y drws*]

Gŵr Doeth 1: Fe ddaethon i chwilio am faban  
Ei seren sy fry yn y nef;  
Mae'n Frenin y byd onid ydyw?  
Ai yma'n y plas y mae ef?

Gwas Herod: Af nawr i ddweud wrth y Brenin Herod  
Fod doethion yn holi am Frenin y byd.  
[Wrth Herod]  
Mae tri gŵr doeth wrth y porth eich Mawrthydi.  
Yn holi am Frenin y ddaear i gyd.

Herod: [Wrth y gwas]  
Brenin yr holl fyd!  
Tyrd â'r doethion ataf i.

[Y doethion yn dod i'r llwyfan]

Herod: Beth yw hyn, wŷr doeth?  
Beth yw hyn a glywaf i?

Gŵr Doeth 2: Dywedodd y proffwydi  
Am y dwyfol faban hwn:  
Rhyw ddydd bydd e'n teyrnasu  
Dros y ddaear yma'n grwn.

Gŵr Doeth 3: Fe welsom fry yn yr wybren  
Mor ddisglair ei seren ef!  
Daethon ninnau â thrysorau  
I'r baban a ddaeth o'r nef.

Herod: [Yn addfwyn]  
Ewch felly i chwilio amdano  
A dewch 'nôl â'r hanes i mi,  
Rhowch wybod ymhle mae'r baban  
A dod i'w addoli wna f i.

[Y doethion yn gadael]

Herod: [yn gas]  
Doethion yn dod ag anrhegion!  
Seren! O ble y daeth hi?  
Mae'n siŵr fod 'na frenin yn rhywle  
Am gipio fy nghoron i!  
[Wrth y gwas]  
Mae'r doethion yn chwilio amdano,  
Yn chwilio ym mhob man drwy'r dref;  
Cyn hir dôn nhw'n ôl â'r newyddion,  
Ac yna fe'i lladdwn ni ef.

[Ffanffer]

Llefarydd: Ond doeth yn wir oedd y tri gŵr hyn,  
A gwelsant fod Herod yn dwyllwr:  
Ni fynnent roi gwybod am Frenin y byd  
I un oedd yn ddiau'n ormeswr.

#### **GOLYGFA 4**

[*Doethion yn dod i'r llwyfan ac yn penlinio wrth y crud*]

Gŵr Doeth 1: Rhodd o aur a ddygaf i,  
Ti, yn wir, yw'n Brenin ni.

Gŵr Doeth 2: Rhoddaf innau thus i ti  
Ti yw ein Meseia ni.

Gŵr Doeth 3: Myrr sydd gennyf i yn awr:  
Yn y byd cei dristwch mawr.

[*Plant bach yn dod i'r llwyfan*]

Plant: Rydyn ninnau am roi rhoddion  
I ti'n awr, fel gwnaeth y doethion;  
Diolch wnawn amdanat ti,  
Derbyn nawr ein rhoddion ni.

Llefarydd: Cyflwynodd y doethion drysorau drud;  
A roddwn ni roddion i Geidwad y byd?

Llefarydd: O cofiwn ni'r Nadolig hwn  
Am rai sy'n dioddef dan eu pwn;  
Y gorau rodd i Iesu Grist  
Yw rhoi ein help i'r tlawd a'r trist.  
Diolch am gyfle i wasanaethu,  
Diolch am gyfle i roi rhodd i Iesu.

Darllenydd: Ie, ein byd ni yw'r blaned a gafodd ymweliad. Gwrandewn ar eiriau Ioan ar  
ddechrau ei efengyl.

(Ioan 1:1–5)

#### **DIWEDD**